# Cod Ymarfer

# Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau

# (Etholiadau'r Senedd)

# 2025

**Mae'r Cod hwn:**

- **i'w adnabod fel Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025**
- **yn dod i rym ar (add date)**

# Ynglŷn â'r Cod

## Cefndir

1.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru o dan adran 100C(8)(a) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA').[1]

1.2 Paratowyd[2] y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol (y 'Comisiwn') yn unol ag adran 100C o PPERA ar ôl ymgynghori â phersonau â diddordeb, Llywodraeth Cymru a Phwyllgor y Llywydd.

1.3 Mae'r adroddiad ymgynghori ar gael ar wefan y Comisiwn.

1.4 Cymeradwywyd drafft gan Weinidogion Cymru a'i osod gerbron Senedd Cymru ('y Senedd') yn unol ag adran 100C o PPERA.

1.5 Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i'r Cod hwn wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ran 6 PPERA a chaiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd yn unol ag adran 100A(3) PPERA.

## Etholiadau a gwmpesir gan y Cod hwn

1.6 Mae'r Cod hwn yn berthnasol ar gyfer etholiadau y Senedd (etholiadau'r Senedd). Os bydd cyfnod a reoleiddir cyfunol ar waith o dan Ran 3 Atodlen 10 i PPERA, mae rheolau etholiadau'r DU yn berthnasol i rai etholiadau a gynhelir yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fydd hynny'n berthnasol i etholiad i'r Senedd, ni fydd y Cod hwn yn berthnasol.[3]

## Diben y Cod hwn

1.7 Mae'r Cod hwn yn egluro gweithrediad Rhan 6 o PPERA ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau'r Senedd gan gynnwys yn ystod cyfnod a reoleiddir cyfunol pan fo hynny'n berthnasol. Mae'r Comisiwn a'r Cod hwn yn cyfeirio at drydydd partïon fel '**ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau**'.

1.8 Mae'r Cod hwn yn nodi:

- beth yw ymgyrchydd nad yw'n blaid
- beth yw ymgyrchu di-blaid
- y mathau o dreuliau sy'n dreuliau cymwys
- o dan ba amgylchiadau yr ystyrir yr ysgwyddir treuliau neu beidio er mwyn hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant etholiadol
- y mathau o wariant sy'n cael ei drin fel rhoddion neu wariant a reolir tybiannol
- yr amgylchiadau a fydd yn cael eu hystyried yn ymgyrchu ar y cyd
- beth yw gwariant wedi'i dargedu a phryd mae'n berthnasol
- y gofynion cofnodi ac adrodd (gan gynnwys ar gyfer cyfnodau a reoleiddir cyfunol).

---

[1] 2000 c. 41

[2] adran 100A(1A) PPERA

[3] adran 100A(1A) PPERA

## Diffiniadau a thermau allweddol

1.9 Defnyddir y termau canlynol yn y Cod hwn fel y'u diffinnir yn y ddeddfwriaeth.

1.10 Yn y Cod hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Mae i **'swm priodol'** yr un ystyr ag sydd i *appropriate amount* yn adran 86 o PPERA.

Mae i **'wariant ymgyrchu'** yr un ystyr ag sydd i *campaign expenditure* yn adran 72(2) o PPERA.

Mae **'ymgeisydd'** yn golygu person sy'n sefyll mewn etholiad perthnasol o dan adran 22 PPERA.

Mae i **'wariant a reolir'** yr un ystyr ag sydd i *controlled expenditure* yn adran 85(2) o PPERA.

Mae i'r gair **'costau'** ei ystyr arferol o dreuliau eitem, neu'r treuliau sy'n gysylltiedig ag eitem. Mae'n cynnwys y **'swm priodol'** i'w drin fel swm a ysgwyddir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid o dan y gyfraith ar wariant tybiannol.

Mae i **'rodd'** yr un ystyr â'r hyn sydd ym mharagraffau 2 i 4 o Atodlen 11 i PPERA.

Mae **'ymgyrch gyffredinol'** yn golygu ymgyrch o blaid neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid wleidyddol mewn etholiad perthnasol a reoleiddir o dan Ran 6 o PPERA.

Mae **'ysgwyddo'** yn golygu gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian.

Mae **'ymgyrchydd nad yw'n blaid'** yn golygu unigolyn neu sefydliad sy'n ymgyrchu o amgylch etholiadau heb fod ag ymgeiswyr eu hunain fydd yn sefyll etholiad. Yn PPERA, cyfeirir at ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau fel '*third parties*' fel y nodir yn adran 85(8) o PPERA.

Mae **'gwariant tybiannol a reolir'** yn golygu unrhyw wariant a reolir y mae adran 86 o PPERA yn berthnasol iddo.

Mae gan **'ymgeisydd rhestr plaid'** yr un ystyr ag adran 2 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025.

Ystyr **'plaid wleidyddol'** yw plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran 2 o PPERA.

Mae **'PPERA'** yn cyfeirio at Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae **'ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid'** yn golygu ymgyrchydd nad yw'n blaid sydd ar y gofrestr a ddelir gan y Comisiwn yn unol â hysbysiad a roddir i'r Comisiwn o dan adran 88 o PPERA. Cyfeirir at ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau fel '*recognised third parties*' yn PPERA (gweler adran 88 am y diffiniad statudol).

Ystyr **'cyfnod a reoleiddir'** yw'r '*relevant period*' ar gyfer etholiad i'r Senedd fel y'i nodir ym mharagraff 6 o Atodlen 10 i PPERA. Mae adran 89B(6) yn cyfeirio at y cyfnod hwn fel '*Welsh devolved regulated period*'.

Mae **'etholiad perthnasol'** yn golygu'r etholiadau hynny a nodir yn adran 22(5) o PPERA:

- etholiadau i Senedd y DU
- etholiadau i Senedd yr Alban
- etholiadau y Senedd
- etholiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon
- etholiadau comisiynwyr heddlu a throseddu
- etholiadau llywodraeth leol
- etholiadau lleol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae **'trothwy adrodd'** yn golygu'r '*lower tier expenditure limits*' a ddiffinnir yn adran 85(5B) ac a nodir yn 94(5) o PPERA fel £10,000 ar gyfer Cymru.

Mae **'ffurflen wariant'** yn golygu ffurflen gwariant a reolir gan ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid fel sy'n ofynnol o dan adran 96 o PPERA.

Diffinnir **'gwariant wedi'i dargedu a therfyn gwariant wedi'i dargedu'** yn adran 94D o PPERA. Cyfeirir ato weithiau fel 'gwario wedi'i dargedu'. Mae'n golygu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir y gellir yn rhesymol ei ystyried fel gwariant y bwriedir iddo ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros un blaid benodol neu dros unrhyw un o'i hymgeiswyr. Mae'n berthnasol mewn perthynas ag etholiadau Senedd y DU neu yn ystod cyfnod a reoleiddir cyfunol. Nid yw'n berthnasol ar gyfer etholiadau'r Senedd.

## Y Cod hwn a chanllawiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn

1.11 Mae'r Cod hwn yn ffurfio canllawiau statudol.

1.12 Mae'r Cod hwn yn wahanol i fathau eraill o ganllawiau y mae'r Comisiwn yn eu cyhoeddi oherwydd ei fod wedi'i gymeradwyo gan y Senedd.

1.13 Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar dreuliau a ysgwyddir gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac yn cyhoeddi canllawiau cyfredol ynghylch pa etholiadau sy'n cael eu cynnal a pha gyfreithiau sy'n berthnasol ar ei wefan.

1.14 Pan fo'r Cod hwn neu unrhyw ganllawiau cysylltiedig yn dweud bod rhaid gwneud rhywbeth, mae hynny'n golygu ei fod yn ofyniad naill ai mewn deddfwriaeth sylfaenol neu mewn is-ddeddfwriaeth.

## Troseddau ac amddiffyn

1.15 Gall dangos eu bod wedi cydymffurfio â’r Cod hwn wrth bennu p’un a oedd eu gweithgaredd ymgyrchu wedi’i reoleiddio ai peidio, fod yn amddiffyniad i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

1.16 Mae adran 100A(5A) o PPERA yn darparu amddiffyniad ar gyfer ymgyrchydd nad yw’n blaid sydd wedi’i gyhuddo o drosedd o dan Ran 6 o PPERA.

**Beth yw canlyniadau torri’r Cod hwn?**

1.17 Gall torri’r gyfraith a esbonnir yn y Cod hwn arwain at gyflawni trosedd gan yr ymgyrchydd nad yw’n blaid, y person cyfrifol neu’r unigolyn sy’n gwario’r arian. Gall cyflawni trosedd arwain at gosb sifil (fel dirwy) neu erlyniad. Mae Polisi Gorfodi’r Comisiwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gosbau sifil.

# Beth yw ymgyrchydd nad yw’n blaid?

2.1 Mae rhai unigolion a sefydliadau, nad ydynt yn bleidiau gwleidyddol, yn ymgyrchu dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr, neu ar faterion yn ymwneud ag etholiadau, heb sefyll fel ymgeiswyr eu hunain.

2.2 Mewn cyfraith etholiadol, diffinnir yr unigolion a’r sefydliadau hyn fel trydydd partïon. Mae’r Comisiwn yn cyfeirio atynt fel ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

2.3 Mae cyfreithiau y mae’n rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau eu dilyn ar wariant, rhoddion ac adrodd ynghylch ymgyrchu.

2.4 Mae llawer o unigolion a sefydliadau yn ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau ac yn bodloni’r diffiniad o ymgyrchydd nad yw’n blaid ond sydd heb eu cynnwys yn y drefn reoleiddio.

## Pwy sy’n dod o dan y gyfraith

2.5 Mae'r gyfraith ar wariant a rhoddion yn berthnasol i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy’n gwario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.[4]

2.6 Dim ond os yw wedi’i restru yn adran 88(2) o PPERA fel rhywun sy’n gymwys i roi hysbysiad i’r Comisiwn y gall ymgyrchydd nad yw’n blaid wario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Mae’n drosedd gwario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir os yw’r ymgyrchydd nad yw’n blaid heb ei restru yn adran 88(2) fel rhywun sy’n gymwys i roi hysbysiad i’r Comisiwn.[5]

2.7 Rhaid i ymgyrchwyr cymwys nad ydynt yn bleidiau sy’n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir gyflwyno hysbysiad i’r Comisiwn, ac

---

[4] adran 89B(2) PPERA

[5] adrannau 89B(4) a (5) PPERA

ar ôl hynny byddant yn ymddangos ar y gofrestr hysbysiadau. Mae'n drosedd gwario mwy na £10,000 heb gyflwyno hysbysiad o'r fath.[6]

**Ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau a'r person cyfrifol**

2.8 Unwaith y bydd ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ymddangos ar y gofrestr hysbysiadau, ar ôl cyflwyno hysbysiad, bydd y Comisiwn yn cyfeirio ato fel 'ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid'.

2.9 Ar ôl iddo gyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn, rhaid i'r ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid benodi 'person cyfrifol'. Mae'r person cyfrifol yn gyfreithiol gyfrifol am gydymffurfio â PPERA.[7]

2.10 Os bydd unigolyn yn cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid, nid oes angen penodi person cyfrifol gan mai nhw fydd y person cyfrifol yn awtomatig.

**Unigolion a sefydliadau nad ydynt yn y DU**

2.11 Ni chaniateir i unigolion a sefydliadau nad ydynt wedi'u lleoli yn y DU neu nad ydynt ar gofrestr etholiadol y DU wario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.[8]

2.12 Gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dim ond gwario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir os ydyn nhw wedi'u rhestru yn adran 88(2) o PPERA fel rhai cymwys i roi hysbysiad i'r Comisiwn.[9]

# Beth yw ymgyrchu di-blaid?

3.1 Dim ond i weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir y mae cyfraith ymgyrchu di-blaid yn berthnasol. Nid yw pob gweithgarwch ymgyrchu di-blaid yn cael ei reoleiddio.

## Gweithgarwch y gellir ei reoleiddio

3.2 Mae gwariant ar y gweithgarwch a ganlyn yn cael ei reoleiddio (i) os yw'n digwydd mewn cysylltiad ag ymgyrch gyffredinol yn ystod **cyfnod a reoleiddir** a (ii) os yw'n bodloni'r prawf diben (gweler tudalen 7 am fwy o fanylion am y prawf hwn):

- cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau a drefnir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid
- cludiant yng nghyd-destun rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch
- llunio neu gyhoeddi deunydd ymgyrchu sy'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd yn gyffredinol neu unrhyw ran o'r cyhoedd
- canfasio ac ymchwil marchnad sy'n ceisio barn neu wybodaeth gan aelodau'r cyhoedd
- ralïau cyhoeddus neu ddigwyddiadau cyhoeddus eraill[10]

[6] adran 94(4) PPERA
[7] adran 88(3)(c)(ii) PPERA
[8] adran 89B PPERA
[9] adran 89B(1) PPERA
[10] adran 85 ac Atodlen 8A paragraff 1 PPERA

3.3 Gweler yr adran ar 'Ystyr "y cyhoedd"' am ystyr y cyhoedd at ddiben gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

## Cyfnod a Reoleiddir

3.4 Mae gwariant gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau cyn etholiad i'r Senedd yn cael ei reoleiddio. Mae PPERA yn cyfeirio at y cyfnod hwn fel '*Welsh devolved regulated period*' neu y '*relevant period*'. Yn y Cod hwn cyfeirir ato fel y 'cyfnod a reoleiddir' yn unig.

3.5 Fel arfer, y cyfnod a reoleiddir yw'r cyfnod o bedwar mis sy'n arwain at y diwrnod pleidleisio gan gynnwys y diwrnod pleidleisio ei hun.[11] Cynhelir etholiadau i'r Senedd ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai pedair blynedd ar ôl yr etholiad blaenorol, yn unol ag adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006')[12]. Gall dyddiad y bleidlais gael ei ddwyn ymlaen neu ei wthio'n ôl hyd at fis o dan adran 4 Deddf 2006.

3.6 Pan gaiff dyddiad y bleidlais ei symud ymlaen yn y pum mis cyn y diwrnod y byddai wedi digwydd o dan adran 3 o Ddeddf 2006,[13] mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau pedwar mis cyn dyddiad newydd y bleidlais ac yn dod i ben ar ddyddiad newydd y bleidlais. Pan gaiff dyddiad y bleidlais ei wthio yn ôl yn ystod y pedwar mis cyn y byddai wedi digwydd, mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau eto bedwar mis cyn dyddiad newydd y bleidlais ac yn dod i ben ar ddyddiad newydd y bleidlais.

3.7 Os caiff dyddiad y bleidlais ei symud ar unrhyw adeg arall, mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau pedwar mis cyn y dyddiad y byddai'r bleidlais wedi'i chynnal o dan adran 3(1) o Ddeddf 2006 ac yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw.

3.8 Pan gaiff etholiad cyffredinol eithriadol i'r Senedd[14] ei alw, mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau â'r dyddiad pan fydd y Llywydd yn cynnig dyddiad ar gyfer yr etholiad ac yn dod i ben ar ddiwrnod y bleidlais.[15]

3.9 Mae'r Comisiwn yn llunio canllawiau wedi'u diweddaru ar etholiadau penodol (gan gynnwys dechrau a diwedd pob cyfnod a reoleiddir) ac yn eu cyhoeddi ar ei wefan.

### Cyfnodau a reoleiddir cyfunol a gwariant wedi'i dargedu

3.10 Gall y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad nad yw i'r Senedd fod yn berthnasol os yw'n gorgyffwrdd â'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad i'r Senedd. Pan fo dau neu fwy o gyfnodau a reoleiddir yn gorgyffwrdd, mae cyfnod a reoleiddir cyfunol yn gymwys

[11] adran 89B(6) PPERA
[12] Atodlen 10 paragraff 6(4) PPERA
[13] 2006 c. 32
[14] Yn unol ag adran 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[15] Atodlen 10 paragraff 6(5) PPERA

i’r rhan berthnasol o’r DU. Mae’r Comisiwn yn llunio canllawiau wedi’u diweddaru ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar gyfer etholiadau penodol, gan gynnwys cyfnodau a reoleiddir cyfunol pan fo hynny’n berthnasol.

3.11 Nid yw gwariant wedi’i dargedu yn berthnasol ar gyfer etholiadau’r Senedd ond gallai fod yn berthnasol ar gyfer cyfnodau a reoleiddir cyfunol.[16]

## Prawf diben

3.12 Ni chaiff gwariant ar weithgarwch ymgyrchu gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei reoleiddio oni bai y gellir yn rhesymol ystyried ei fod wedi’i fwriadu i hyrwyddo neu i sicrhau llwyddiant etholiadol:

- un neu fwy o bleidiau gwleidyddol
- un neu fwy o ymgeiswyr rhestr plaid sy’n sefyll ar restr plaid
- pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr sy’n cefnogi neu ddim yn cefnogi polisïau penodol neu
- categori arbennig arall o ymgeiswyr[17]

drwy ddylanwadu ar bleidleiswyr mewn **etholiad perthnasol** sydd ar ddod i bleidleisio mewn ffordd benodol. Gweler y diffiniad o ‘etholiad perthnasol’ uchod.

3.13 Mae p’un a ellir yn rhesymol ystyried bod gweithgarwch yn weithgarwch sydd â’r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol yn cael ei adnabod yn gyffredin fel y ‘prawf diben’.

3.14 Rhaid i’r prawf diben gael ei gymhwyso ar y pryd, neu mewn achos o gyfnod a reoleiddir ôl-weithredol, fel pe ysgwyddir gwariant ar y gweithgarwch ar y pryd. Os ysgwyddir gwariant cyn y cyfnod a reoleiddir ond bod y gweithgarwch yn digwydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, rhaid cymhwyso’r prawf diben ar yr adeg mae’r gweithgarwch yn digwydd.

3.15 Er nad yw’r rhain wedi’u nodi yn PPERA, mae nifer o ffactorau a all helpu i benderfynu a ellir ystyried yn rhesymol bod gweithgarwch ymgyrchu wedi’i fwriadu i ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol mewn etholiad sydd ar ddod. Y ffactorau yw:

1. Galwad i weithredu
2. Tôn
3. Cyd-destun ac amseru
4. Sut y byddai person rhesymol yn gweld y gweithgarwch

3.16 Ni fydd un ffactor unigol ar ei ben ei hun yn pennu a yw gweithgarwch ymgyrchu penodol yn bodloni’r prawf diben ai peidio. Yn hytrach, yr holl ffactorau perthnasol gyda’i gilydd fydd yn pennu a yw gweithgarwch ymgyrchu yn bodloni’r prawf diben.

[16] adran 94D PPERA ac Atodlen 9 Rhan 3
[17] adran 85(2) PPERA

3.17 Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r ffactorau hyn wrth ystyried a yw gweithgarwch yn bodloni'r prawf diben:

- **Galwad i weithredu**

3.18 Mae ymgyrch sy'n cynnwys galwad ar bleidleiswyr i weithredu drwy bleidleisio mewn ffordd benodol mewn etholiad sydd ar ddod yn debygol o gael ei hystyried yn rhesymol fel un sy'n hyrwyddo llwyddiant etholiadol ar gyfer plaid neu gategori penodol o ymgeiswyr ac felly o fodloni'r prawf diben. Gall yr alwad i weithredu fod yn alwad uniongyrchol, neu gall fod yn ymhlyg.

3.19 Mae ymgyrch sy'n hyrwyddo pleidiau neu ymgeiswyr penodol yn uniongyrchol, neu sy'n hyrwyddo'n ymhlyg rhai pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr dros rai eraill, yn debygol o fodloni'r prawf diben.

3.20 Mae'n annhebygol y bydd ymgyrch gyhoeddus heb alwad uniongyrchol neu ymhlyg i bleidleiswyr weithredu yn bodloni'r prawf diben.

- **Tôn**

3.21 Mae ymgyrch sy'n gadarnhaol neu'n negyddol tuag at blaid neu bleidiau gwleidyddol, categori o ymgeiswyr neu bolisi sydd â chysylltiad agos a chyhoeddus â phlaid neu gategori o ymgeiswyr yn debygol o gael ei hystyried yn rhesymol fel un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol ac felly o fodloni'r prawf diben.

3.22 Mae ymgyrch sy'n gwneud i bleidleisiwr feddwl am blaid wleidyddol benodol neu gategori o ymgeiswyr yn debygol o gael ei hystyried fel un y bwriedir iddi ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol ac felly o fodloni'r prawf diben.

- **Cyd-destun ac amseru**

3.23 Mae ymgyrch ar fater neu bolisi sy'n fater amlwg ar yr adeg y cynhelir y gweithgarwch ymgyrchu, sydd hefyd yn bodloni'r ffactorau eraill, yn debygol o gael ei hystyried yn rhesymol fel un sy'n hyrwyddo llwyddiant etholiadol plaid neu gategori penodol o ymgeiswyr ac felly o fodloni'r prawf diben.

3.24 Mae ymgyrch sy'n dechrau'n agos at ddyddiad etholiad ac sydd hefyd yn bodloni'r ffactorau eraill, yn fwy tebygol o gael ei hystyried yn rhesymol fel un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol yn yr etholiad sydd i ddod.

3.25 Mae'n annhebygol y bydd ymgyrch barhaus yn cael ei hystyried yn rhesymol fel un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol yn yr etholiad.

- **Sut y byddai person rhesymol yn gweld y gweithgarwch**

3.26 Dim ond os bydd person rhesymol yn ystyried bod y gweithgarwch yn weithgarwch sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd

benodol mewn etholiad sydd i ddod y bydd gweithgarwch ymgyrchu yn bodloni'r prawf diben.

### Ymgyrchoedd sydd â sawl diben

3.27 Gall gweithgarwch sy'n bodloni'r prawf diben fod â nodau eraill yn ogystal â chael ei 'ystyried yn rhesymol fel un y bwriedir iddo ddylanwadu ar sut mae pobl yn pleidleisio'.

3.28 Nid yw'n berthnasol a ellir yn rhesymol ystyried bod gweithgarwch yn weithgarwch sydd â'r bwriad o gyflawni diben neu ddibenion eraill os gellir ystyried yn rhesymol ei fod hefyd yn weithgarwch sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol.[18]

3.29 Er enghraifft, mae gweithgarwch ymgyrchu wedi'i fwriadu i gyflawni dau ddiben, diben X a diben Y. Os yw diben X yn bodloni'r prawf diben, mae'n amherthnasol nad yw diben Y hefyd yn bodloni'r prawf diben.

### Cyfnod a reoleiddir ôl-weithredol

3.30 Pan fydd cyfnod a reoleiddir yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol, dim ond os gellid ystyried yn rhesymol, ar adeg cynnal y gweithgarwch, ei fod yn weithgarwch oedd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol mewn etholiad perthnasol, y caiff unrhyw weithgarwch sy'n cael ei gynnal cyn y cyhoeddiad ei reoleiddio.[19] Gweler y diffiniad o 'etholiad perthnasol' uchod.

3.31 Os nad oes etholiadau perthnasol ar y gweill, mae'n annhebygol y bydd ymgyrch barhaus ar fater penodol yn cael ei hystyried yn rhesymol fel un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol. Mae gweithgarwch ymgyrchu sy'n canolbwyntio ar fater penodol yn hytrach nag ar sut y dylai pleidleisiwr bleidleisio yn annhebygol o fodloni'r prawf diben os nad oes etholiadau perthnasol ar y gweill.

3.32 Dim ond o dan y naill neu'r llall o'r amgylchiadau canlynol y caiff gweithgarwch ymgyrchu ei reoleiddio o ganlyniad i gyfnod a reoleiddir ôl-weithredol:

- Bydd gweithgarwch ymgyrchu sy'n bodloni'r prawf diben mewn *unrhyw* etholiad perthnasol sy'n cael ei gynnal ar adeg y gweithgarwch, hyd yn oed os nad yw'n etholiad i'r Senedd, yn cael ei reoleiddio os caiff cyfnod a reoleiddir ôl-weithredol ei gymhwyso.
- Bydd gweithgarwch sy'n ymgyrchu ar gyfer yr etholiad nesaf, ni waeth pa etholiad yw hwnnw, **ac** sy'n bodloni'r prawf diben, yn cael ei reoleiddio os bydd cyfnod a reoleiddir ôl-weithredol yn cael ei gymhwyso.

3.33 Gweler tudalen 13 a'r adran ar 'Gweithgarwch ymgyrchu cyn cyhoeddi etholiad' am fwy o fanylion.

---

[18] adran 85(4A) PPERA

[19] adran 85(6) PPERA

## Ystyr 'y cyhoedd'

3.34 Bydd angen ystyried ystyr 'y cyhoedd' mewn cysylltiad â'r gweithgarwch ymgyrchu canlynol wrth benderfynu a yw gwariant ar y gweithgarwch yn wariant a reoleiddir.

- Canfasio ac ymchwil marchnad ymysg y cyhoedd
- Ralïau a digwyddiadau cyhoeddus
- Llunio neu gyhoeddi deunydd

3.35 Nid oes diffiniad statudol i'r term 'y cyhoedd' felly mae angen ei ystyried yn ei ystyr arferol.

**Canfasio ac ymchwil marchnad**

3.36 Dim ond os yw'n **ceisio barn neu wybodaeth gan y cyhoedd yn gyffredinol** y bydd canfasio ac ymchwil marchnad sy'n bodloni'r prawf diben ac sy'n digwydd yn ystod cyfnod a reoleiddir yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

**Ralïau a digwyddiadau**

3.37 Dim ond os ydynt **ar agor i unrhyw un eu clywed, eu gweld neu fynd iddynt** y bydd ralïau a digwyddiadau sy'n bodloni'r prawf diben ac sy'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod a reoleiddir yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

3.38 Pan fydd mynediad i'r rali neu'r digwyddiad cyhoeddus wedi'i gyfyngu gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid fel nad yw'r cyhoedd yn gallu cymryd rhan, ni fydd hyn yn cael ei reoleiddio.

**Llunio neu gyhoeddi deunydd**

3.39 Dim ond os bydd yr ymgyrchydd nad yw'n blaid yn **darparu deunydd ymgyrchu i'r cyhoedd neu i unrhyw ran o'r cyhoedd** y bydd deunydd ymgyrchu yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

3.40 Mae p'un a yw'r deunydd ar gael i'r cyhoedd yn cael ei bennu gan bwy sydd â mynediad at y deunydd hwnnw:

- **Deunydd ymgyrchu sydd ar gael i'r cyhoedd neu i ran o'r cyhoedd**
  3.41 Bydd deunydd ymgyrchu sydd ar gael i'r cyhoedd neu ran o'r cyhoedd ei glywed neu ei weld, yn ddeunydd ymgyrchu cyhoeddus a bydd yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir os yw hefyd yn bodloni'r prawf diben ac yn digwydd yn ystod cyfnod a reoleiddir. Mae hyn yn berthnasol ni waeth sut caiff y deunydd ei ddosbarthu, er enghraifft drwy brint neu'n ddigidol.
- **Deunydd ymgyrchu nad yw ond ar gael i bobl sydd wedi dewis cael y wybodaeth**
  3.42 Ni fydd deunydd ymgyrchu nad yw **ond** ar gael gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid i grŵp caeedig o aelodau neu bobl sydd wedi dewis cael y wybodaeth, yn cael ei reoleiddio.

3.43 Pan fydd mynediad at ddeunydd ymgyrchu wedi'i gyfyngu yn y fath fodd fel na fyddai'r cyhoedd yn gallu cael mynediad at y deunydd hwnnw, nid yw hyn yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Mae hyn yn berthnasol ni waeth sut caiff y deunydd ei ddosbarthu, er enghraifft drwy brint neu'n ddigidol.

3.44 Pan fydd mynediad at ddeunydd ymgyrchu wedi'i gyfyngu gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid i grŵp o bobl sydd wedi cofrestru i gael y deunydd hwnnw, ni fydd y gweithgarwch hwnnw'n weithgarwch a reoleiddir. Er enghraifft, pan fydd mynediad wedi'i gyfyngu i aelodau, neu i gefnogwyr, ni fydd hyn yn weithgarwch a reoleiddir.

# Beth yw'r gofynion hysbysu ac adrodd?

## Trothwy hysbysu

4.1 Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn y cyfnod a reoleiddir cyn etholiad i'r Senedd gyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn.[20] Cyfeirir at hyn yn y Cod hwn fel y '**trothwy hysbysu'**. Yng nghanllawiau'r Comisiwn neu mewn gohebiaeth â'r Comisiwn efallai y byddwch yn gweld cyfeiriadau at hyn fel y 'trothwy cofrestru'.

**Ymgyrchwyr cymwys nad ydynt yn bleidiau**

4.2 Ni chaniateir i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wario mwy na £700 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir oni bai eu bod yn gymwys i roi hysbysiad i'r Comisiwn yn rhinwedd adran 88(2) o PPERA. Dim ond unigolion neu sefydliadau a ddisgrifir yn adran 88(2) o PPERA sy'n gymwys i gyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn.[21] Dyma restr ohonynt:

- Unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol y DU neu sy'n byw yn y DU
- Cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU sydd wedi'i gorffori yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU;
- Undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU;
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU;
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU;
- Cymdeithas gyfeillgar, cymdeithas ddiwydiannol neu gymdeithas ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU;
- Cymdeithas anghorfforedig sydd â'i phrif swyddfa yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu ei gweithgarwch arall yn y DU;
- Corff a gorfforwyd gan Siarter Frenhinol;
- Sefydliad elusennol corfforedig yn y DU;
- Partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU.

[20] adran 94(3) PPERA

[21] adran 89B(1) PPERA

4.3 Gwaherddir sefydliadau rhag cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ogystal â phlaid wleidyddol.[22]

4.4 Gall ymgyrchydd cymwys nad yw'n blaid wario hyd at £10,000 ledled y DU heb hysbysu'r Comisiwn.[23]

4.5 Cyn gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, rhaid i ymgyrchydd cymwys nad yw'n blaid gyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn.[24]

4.6 Gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n cymryd rhan mewn ymgyrch ar y cyd gyrraedd y trothwy hysbysu o ganlyniad i'r gyfraith ar ymgyrchu ar y cyd, heb ysgwyddo gwariant uniongyrchol eu hunain. Gweler yr adran ar ymgyrchu ar y cyd.

## Trothwyon adrodd

4.7 Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sy'n gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir gofnodi ac adrodd ar eu gwariant a'u rhoddion i'r Comisiwn.[25] Gelwir hyn yn 'drothwy adrodd'.[26]

## Uchafswm y terfyn gwariant ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau

4.8 Mae terfynau gwariant sy'n cyfyngu ar y cyfanswm y gall ymgyrchydd nad yw'n blaid ei wario ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Y terfyn gwariant ar gyfer gwariant a reolir a ysgwyddir gan neu ar ran ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid yw £30,000 fel y nodir ym mharagraff 6(2) Atodlen 10 i PPERA. Bydd gan gyfnodau a reoleiddir cyfunol derfynau gwariant gwahanol.[27] Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yng nghanllawiau'r Comisiwn.

### Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion adrodd

4.9 Nid oes gofyn i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau adrodd ar eu gwariant na'u rhoddion os oes ganddynt ddatganiad yn nodi nad ydynt yn bwriadu gwario mwy na'r trothwyon adrodd cyn belled nad yw eu gwariant yn fwy na'r trothwyon adrodd. Maent yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r gyfraith ar ganiatâd rhoddion.

4.10 Unwaith y bydd ymgyrchydd nad yw'n blaid wedi'i gofrestru, gallent dynnu eu datganiad sy'n nodi nad ydynt yn bwriadu gwario mwy na'r trothwyon adrodd yn ôl, os bydd eu bwriadau gwario yn newid ar ôl cofrestru.[28]

[22] adran 88; adran 28(7A) PPERA
[23] adran 89B(1) a (2) PPERA
[24] adran 94(3)(a)(i), adran 94(3)(b)(i) ac adran 94(4) PPERA
[25] adran 94(3)(a)(i), adran 94(3)(b)(ii), adran 94(5)(b), adran 96 PPERA
[26] adran 85(5B); adran 94(5)(b) PPERA
[27] Atodlen 10 paragraffau 9-11 PPERA
[28] adran 85(5B); adran 88(3D) PPERA

4.11 Mae'n drosedd ysgwyddo gwariant a reolir sy'n fwy na'r trothwyon adrodd os yw'r ymgyrchydd nad yw'n blaid wedi hysbysu'r Comisiwn na fyddent yn gwario mwy na'r terfynau hynny.[29] Byddai unrhyw ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n gwneud hynny hefyd yn ddarostyngedig i'r gofynion adrodd.[30]

## Gofynion adrodd

4.12 Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid gydymffurfio â'r gyfraith ar wario a derbyn rhoddion. Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau gyflwyno ffurflen wariant sy'n manylu ar eu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ac unrhyw roddion a gafwyd at ddiben gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir[31]. Gweler yr adran ar roddion. Rhaid cyflwyno'r ffurflen wariant i'r Comisiwn o fewn tri mis i ddiwedd y cyfnod a reoleiddir perthnasol.[32]

**4.13 Sylwch, os ydych yn bwriadu gwario dros £10,000 mewn etholiad i'r Senedd, rhaid i chi ein hysbysu ni ac adrodd am eich gwariant ar ôl yr etholiad.**

# Pa fath o wariant yw gwariant a reolir?

5.1 Gwariant a reolir yw unrhyw wariant a ysgwyddir mewn perthynas â gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Mae Atodlen 8A i PPERA yn nodi'r rhestr o dreuliau cymwys sy'n dod o fewn y gyfundrefn reoleiddio.

## Arweiniad cyffredinol

**Gweithgarwch ymgyrchu cyn cyhoeddi etholiad**

5.2 Mae ymgyrch barhaus ar fater penodol a oedd yn cael ei chynnal cyn cyhoeddi etholiad yn annhebygol o gael ei hystyried yn rhesymol fel un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol mewn etholiad sydd ar ddod os nad oes etholiad ar ddod.

5.3 Os bydd ymgyrch barhaus yn parhau heb ei newid unwaith y cyhoeddir yr etholiad, mae'n annhebygol o gael ei ystyried yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

5.4 Os bydd gweithgarwch sy'n ymwneud ag ymgyrch barhaus yn cynyddu neu'n cael ei newid yn y cyfnod cyn etholiad mewn ffordd sy'n golygu bod y gweithgarwch yn bodloni'r prawf diben, h.y. gallai'r gweithgarwch gael ei ystyried yn rhesymol bellach fel un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol, gellir ei ystyried yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. O'r adeg y caiff yr ymgyrch ei hystyried yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, dim ond y costau sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch honno sy'n debygol o fod yn wariant a reolir ac mae'n rhaid eu trin felly.

---

[29] adran 94(3)(b)(ii) PPERA
[30] adran 94(10A) PPERA
[31] adran 96(1A), adran 96A ac adran 98(2) PPERA
[32] adran 98(2) PPERA

5.5 Mae'n bosibl y bydd ymgyrch yn dal i gael ei hystyried yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir os mai ei bwriad yw cyflawni diben arall heblaw am ddylanwadu ar bleidleiswyr os gellir ystyried yn rhesymol bod yr ymgyrch yn un sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol mewn etholiad sydd ar ddod.

### Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol

5.6 Gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ailddefnyddio eitemau o etholiadau blaenorol. Nid oes angen adrodd eto ar wariant am eitemau y talwyd amdanynt ac y'u defnyddiwyd mewn etholiad blaenorol ac yr adroddwyd yn llawn amdanynt ar ffurflen wariant flaenorol, yn y ffurflen wariant ar gyfer yr un ymgyrchydd nad yw'n blaid yn yr etholiad presennol os byddant yn cael eu defnyddio eto heb eu haddasu. Rhaid i'r holl gostau newydd sy'n ymwneud â'u hailddefnyddio, gan gynnwys storio, glanhau, neu gost addasu'r eitemau, ymddangos ar y ffurflen wariant.

### Dosrannu eitemau ar gyfer etholiadau dilynol

5.7 Ni ellir dosrannu neu adrodd ar eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd yn ystod cyfnod a reoleiddir ar y sail y byddant yn cael eu defnyddio eto yn ystod cyfnod a reoleiddir dilynol. Rhaid adrodd ar werth llawn y gwariant yn y ffurflen wariant.

### Eitemau nas defnyddiwyd

5.8 Nid oes angen adrodd ar eitemau y talwyd amdanynt gan ymgyrchydd nad yw'n blaid, ond na chawsant eu defnyddio yn ystod y cyfnod a reoleiddir, yn y ffurflen wariant.

5.9 Os defnyddir yr eitemau hynny wedyn mewn etholiad yn y dyfodol, byddai angen adrodd ar y gwariant mewn cysylltiad â'r etholiad hwnnw, fel eitem y talwyd amdani cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir.

### Eitemau y talwyd amdanynt cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir

5.10 Os ysgwyddir gwariant cyn dechrau cyfnod a reoleiddir ar eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir, rhaid adrodd ar y gwariant ar yr eitemau hynny yn y ffurflen wariant.[33]

### Eitemau a ddarparwyd am ddim neu am bris gostyngol

5.11 Pan ddarperir unrhyw eitemau am ddim neu am bris gostyngol, rhaid adrodd ar y **swm priodol** yn y ffurflen wariant fel gwariant tybiannol a/neu rodd. Gweler y diffiniad o **'swm priodol'** uchod.

### Dosrannu gwariant

5.12 Pan ysgwyddir gwariant ar eitem neu weithgarwch yn rhannol mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ac yn rhannol mewn cysylltiad â gweithgarwch

[33] adran 94(8) PPERA

nas rheoleiddir, y swm y mae'n rhaid ei adrodd yw'r gyfran sy'n adlewyrchu'n rhesymol y swm a wariwyd mewn cysylltiad â'r gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

5.13 Dim ond y gwariant ymgyrchu a reoleiddir y mae'n rhaid ei adrodd yn y ffurflen wariant.

## TAW

5.14 Rhaid rhoi gwybod am wariant gan gynnwys TAW pan fo hynny'n berthnasol, hyd yn oed pan mae modd adennill TAW.

## Gorbenion

5.15 Rhaid adrodd ar orbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Y swm y mae'n rhaid ei gynnwys yn y ffurflen wariant yw'r gyfran sy'n adlewyrchiad rhesymol o ddefnydd yn ystod yr ymgyrch.

5.16 Pan nad oes cynnydd mewn gwariant ar orbenion y tu hwnt i'r gwariant arferol a ysgwyddir gan ymgyrchydd, ni fydd gwariant ar orbenion yn cael ei reoleiddio.

5.17 Pan fo cynnydd yng nghost gorbenion a ysgwyddir gan ymgyrchydd o ganlyniad i weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, rhaid adrodd ar y cynnydd hwnnw o ran gwariant.

5.18 Yn gyffredinol, y gyfran sy'n adlewyrchiad rhesymol o ddefnydd yw'r gost a ysgwyddir sy'n mynd y tu hwnt i'r costau arferol mewn cyfnod penodol. Pan fo angen dosrannu gorbenion, mae ffigwr cyfanredol ar gyfer pob gorben yn ddigon i fodloni'r rhwymedigaethau adrodd.

5.19 Gall gorbenion gynnwys eitemau fel:

- gofod swyddfa
- biliau trydan
- darparu llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd
- ffonau symudol
- darparu offer swyddfa o unrhyw fath

5.20 Nid yw cost dŵr, nwy a'r dreth gyngor yn gostau y mae angen rhoi gwybod amdanynt gan nad ydynt wedi'u cysylltu'n ddigon agos â'r gweithgarwch a reoleiddir.

## Costau staff

5.21 Rhaid adrodd ar gostau staff y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i weithgarwch a reoleiddir. Dim ond costau staff a ysgwyddir o ganlyniad i weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir y mae angen eu hadrodd.

5.22 Pan mai dim ond yn rhannol y gellir priodoli costau staff i weithgarwch a reoleiddir, rhaid dosrannu'r costau a dim ond y gyfran a briodolir i weithgarwch a reoleiddir y mae'n rhaid ei chynnwys yn y ffurflen wariant.

5.23 Pan fo angen dosrannu amser aelod o staff, mae ffigur cyfanredol ar gyfer yr holl amser staff a briodolir i weithgarwch a reoleiddir yn ddigon i fodloni'r rhwymedigaethau adrodd.

5.24 Nid yw costau gofal plant aelodau staff yn dreuliau y mae angen rhoi gwybod amdanynt gan nad ydynt wedi'u cysylltu'n ddigon agos â'r gweithgarwch a reoleiddir.[34]

### Eitemau sydd wedi'u heithrio

5.25 Ni chaiff unrhyw wariant ar weithgarwch ymgyrchu y mae angen ei adrodd ar ffurflen wariant ymgeisydd neu ar ffurflen wariant plaid wleidyddol, ei adrodd ar ffurflen wariant ymgyrchydd nad yw'n blaid.

## Atodlen 8A

5.26 Mae Atodlen 8A i PPERA yn rhestru'r treuliau cymwys a reoleiddir.

### Treuliau sy'n dod o fewn y gyfundrefn reoleiddio

- llunio neu gyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol neu unrhyw ran o'r cyhoedd (ym mha bynnag ffurf a thrwy ba bynnag fodd)
- canfasio, neu ymchwil marchnad sy'n ceisio barn neu wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd
- cynadleddau i'r wasg, neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau, a drefnir gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid
- cludo pobl (drwy unrhyw fodd) i unrhyw le neu lefydd gyda'r nod o gael cyhoeddusrwydd
- mae treuliau mewn cysylltiad â chludo pobl yn cynnwys costau llogi dull penodol o'u cludo
- ralïau cyhoeddus neu ddigwyddiadau cyhoeddus eraill, ac eithrio cynadleddau blynyddol yr ymgyrchydd nad yw'n blaid
- mae treuliau mewn perthynas â digwyddiadau o'r fath yn cynnwys costau a ysgwyddir mewn cysylltiad â phresenoldeb pobl mewn digwyddiadau o'r fath, llogi mangreoedd at ddibenion digwyddiadau o'r fath neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt. Ond nid yw treuliau mewn perthynas â digwyddiadau o'r fath yn cynnwys costau a ysgwyddir wrth ddarparu ar gyfer diogelu pobl neu eiddo.

### Treuliau sydd y tu allan i'r gyfundrefn reoleiddio

Mae Atodlen 8A i PPERA yn eithrio'r treuliau canlynol yn benodol o'r gofynion adrodd:

- treuliau a ysgwyddir mewn perthynas â chyhoeddi unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholiad, ac eithrio hysbyseb:
  - mewn papur newydd neu gyfnodolyn
  - fel darllediad a wneir gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig neu gan Sianel Pedwar Cymru neu

[34] adran 85(2)(b) PPERA

    - fel rhaglen sydd wedi'i chynnwys mewn unrhyw wasanaeth sydd wedi'i drwyddedu o dan Ran 1 neu 3 o Ddeddf Darlledu 1990 neu Ran 1 neu 2 o Ddeddf Darlledu 1996
- treuliau a ysgwyddir mewn perthynas â chyfieithu unrhyw beth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, neu o ganlyniad i hynny
- treuliau personol rhesymol a ysgwyddir gan unigolyn wrth deithio neu wrth ddarparu ar gyfer llety neu anghenion personol eraill yr unigolyn
- treuliau rhesymol y gellir eu priodoli'n rhesymol i anabledd unigolyn
- treuliau a ysgwyddir mewn perthynas â darparu gwasanaethau'r unigolyn ei hun a ddarperir yn wirfoddol yn amser yr unigolyn ei hun ac yn rhad ac am ddim
- treuliau rhesymol a ysgwyddir y gellir eu priodoli'n rhesymol i ymdrechion i ddiogelu pobl neu eiddo

5.27 Mae'r Atodiad yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r mathau o dreuliau sydd, neu nad ydynt, yn dod o fewn ystyr treuliau cymwys.

# Beth yw gwariant a reolir tybiannol?

6.1 Weithiau gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ddefnyddio eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau yn eu hymgyrch nad oedd yn rhaid iddynt wario arian arnynt, oherwydd bod yr eitem neu'r gwasanaethau wedi'u darparu fel budd mewn nwyddau, am ddim, neu am bris gostyngol anfasnachol.

6.2 Gelwir hyn yn 'wariant tybiannol'.

## Gostyngiadau

### Gostyngiadau anfasnachol

6.3 Gostyngiadau arbennig a roddir i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid yw gostyngiadau anfasnachol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfraddau arbennig nad ydynt ar gael ar y farchnad agored.

6.4 Pan fydd hyn yn digwydd, bydd gwerth masnachol llawn yr eitem neu'r gwasanaethau yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant a rhaid ei adrodd ar y ffurflen wariant.

### Gostyngiadau masnachol

6.5 Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer archebion swmpus neu ostyngiadau tymhorol. Nid yw'r rhain yn cael eu trin fel gwariant tybiannol.

## Gwariant tybiannol

6.6 Bydd eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir gan neu ar ran ymgyrchydd nad yw'n blaid yn cael eu trin fel gwariant tybiannol:

- os yw'r eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau'n cael eu darparu am ddim neu gyda gostyngiad o fwy na 10% oddi ar y gyfradd fasnachol at ddefnydd neu fudd yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, neu yn achos trosglwyddo eiddo os caiff ei drosglwyddo'n rhad ac am ddim neu gyda gostyngiad o fwy na 10% o'i werth marchnadol;[35]
- os yw'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng yr hyn a ddarperir a'r hyn a delir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid yn fwy na £200;[36]
- os ydynt yn cael eu defnyddio gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid; ac
- y byddent wedi bod yn wariant a reolir pe bai'r treuliau a ysgwyddir gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas â'r defnydd hwnnw.[37]

6.7 Dim ond os caiff y defnydd hwnnw ei gyfeirio, ei awdurdodi neu ei annog gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid neu'r person cyfrifol y defnyddir yr eitemau neu'r gwasanaethau ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid.[38]

6.8 Gwerth y gwariant tybiannol yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gwerth yr hyn a drosglwyddwyd neu a ddarparwyd a'r swm a dalwyd, os o gwbl.

6.9 Rhaid i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid gofnodi:

- gwerth y gwariant tybiannol
- y cyfanswm a dalwyd.

6.10 Ni chaiff eitemau neu wasanaethau eu trin fel gwariant tybiannol:

- os mai 10% neu lai na hynny yw'r gostyngiad arnynt, nac
- os yw gwerth y gostyngiad yn £200 neu lai.

## Gwerth gwariant tybiannol

6.11 Pan gaiff eitem ei thrin fel gwariant tybiannol, rhaid i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid adrodd '**swm priodol**' fel gwariant a reolir.

6.12 Pan fo'r gwariant tybiannol yn eiddo a drosglwyddwyd i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid, y **swm priodol** yw'r gyfran y gellir ei phriodoli'n rhesymol i'r defnydd o'r eitem, o naill ai:

- ei gwerth marchnadol (pan gaiff ei throsglwyddo am ddim) neu
- gwerth y gostyngiad[39].

[35] adran 86(1)(a) PPERA
[36] adran 86(6) PPERA
[37] adran 86(1)(b) PPERA
[38] adran 86(1A) PPERA
[39] adran 86(3) PPERA

6.13 Pan fo'r gwariant tybiannol yn eiddo, yn wasanaethau neu'n gyfleusterau a ddefnyddir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, y **swm priodol** yw'r gyfran y gellir ei phriodoli'n rhesymol i'r defnydd o'r eitem, o naill ai:

- y gyfradd fasnachol (os caiff ei darparu am ddim) neu
- y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol ar gyfer eitem neu wasanaeth a'r pris a dalwyd mewn gwirionedd gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid[40].

## Rhoddion

6.14 Rhaid i'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau gael eu darparu neu eu trosglwyddo i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid er mwyn eu trin fel gwariant tybiannol.

6.15 Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw wariant tybiannol hefyd yn rhodd i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid.

6.16 Rhaid ymdrin â'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gwerth marchnadol neu'r gyfradd fasnachol, a'r pris a dalwyd, os o gwbl, yn unol â'r gyfraith ar roddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac efallai y bydd angen adrodd arnynt i'r Comisiwn.

## Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol cofrestredig

6.17 Gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau hefyd weithio gyda phlaid wleidyddol, a darparu eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol.

6.18 Os bydd y blaid wleidyddol gofrestredig yn defnyddio'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau yn ystod ei hymgyrch, rhaid trin hyn fel gwariant tybiannol ar ran y blaid wleidyddol.[41] Bydd hyn hefyd yn cael ei drin fel rhodd gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid i'r blaid wleidyddol.[42]

6.19 Rhaid i'r blaid wleidyddol adrodd ar hyn a bydd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y blaid.

6.20 Ni fydd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgyrchydd nad yw'n blaid ac ni chaiff ei gofnodi yn y ffurflen wariant ar gyfer yr ymgyrchydd nad yw'n blaid.

---

[40] adran 86(4) PPERA
[41] adran 73 PPERA
[42] adran 50(2) PPERA

# Beth yw ymgyrchu ar y cyd?

## Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau

7.1 Gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau benderfynu cydweithio ar ymgyrch. Pan fydd ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cydweithio ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, gall y gyfraith ar ymgyrchu ar y cyd fod yn berthnasol.

7.2 Mae'r gyfraith ar ymgyrchu ar y cyd yn berthnasol i ymgyrchwyr cofrestredig ac anghofrestredig nad ydynt yn bleidiau.[43]

7.3 Mae ymgyrchydd nad yw'n blaid yn cymryd rhan mewn ymgyrchu ar y cyd pan fo'r amgylchiadau canlynol i gyd yn bresennol:

- maent yn ymrwymo i **gynllun neu drefniant arall** gydag un neu fwy o ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau
- mae'r holl ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r cynllun neu'r trefniant yn **bwriadu ysgwyddo** gwariant a reolir yn unol â'r cynllun neu'r trefniant hwnnw
- mae un neu fwy o'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r cynllun neu'r trefniant **mewn gwirionedd yn ysgwyddo** gwariant a reolir yn unol â'r cynllun neu'r trefniant, a
- gellir yn rhesymol ystyried bod y cynllun neu'r trefniant hwnnw yn un sydd â'r **bwriad o gyflawni diben cyffredin.**[44]

7.4 Mae'r holl wariant ar yr ymgyrch ar y cyd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant pob un o'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd.

## Beth yw ymgyrchu ar y cyd

**Rhaid cael mwy nag un ymgyrchydd nad yw'n blaid**

7.5 Ni fydd sefydliad ambarél presennol sy'n gwneud penderfyniadau am ei weithgarwch ymgyrchu yn annibynnol yn ymgyrchu ar y cyd oni bai ei fod yn ymrwymo i gynllun neu drefniant gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau a'u bod i gyd yn bwriadu ysgwyddo gwariant a reolir.

7.6 Nid ymgyrchu ar y cyd fyddai sefydliad newydd sy'n cael ei sefydlu i gynnal gweithgarwch ymgyrchu sy'n cynnwys grŵp o sefydliadau eraill ac yn gwario arian.

**Rhaid bod cyd-ddealltwriaeth yr ysgwyddir gwariant a reolir er mwyn cyflawni'r diben cyffredin**

7.7 Os nad oes bwriad ysgwyddo gwariant, does dim ymgyrchu ar y cyd. Er enghraifft, os cytunir y bydd pob gweithgarwch yn cael ei gyflawni gan wirfoddolwyr, ni ysgwyddir gwariant a ni fydd ymgyrchu ar y cyd.

---

[43] adran 94(7) PPERA
[44] adran 94(6) PPERA

**Rhaid bod cyd-ddealltwriaeth o ran cwmpas a diben yr ymgyrch**

7.8 Nid yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n digwydd ymgyrchu am faterion tebyg neu gysylltiedig yn ymgyrchwyr ar y cyd.

**Rhaid bod cyd-ddealltwriaeth rhwng yr ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau y bydd pob un ohonynt yn ysgwyddo gwariant a reolir i gyflawni'r diben cyffredin**

7.9 Bydd yr holl wariant a reolir a ysgwyddir yn unol â'r cynllun neu'r trefniant yn dod o dan reolaethau ymgyrchu ar y cyd.

7.10 Nid mater o ymgyrchu ar y cyd yw:

- trosglwyddo neu fenthyca eitemau i ymgyrchydd arall, na
- darparu arian i ymgyrchydd arall

7.11 Rhaid trin hyn fel gwariant tybiannol neu rodd ac ymdrin ag ef yn unol â'r gyfraith briodol.

7.12 Hyd yn oed os bydd un o'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r cynllun neu'r trefniant yn peidio ag ysgwyddo cyfran o'r gwariant y cytunwyd arno, bydd unrhyw wariant a ysgwyddir yn dal i fod yn ymgyrchu ar y cyd a rhaid i bob ymgyrchydd nad yw'n blaid adrodd arno.

7.13 Nid yw gwariant a reolir a ysgwyddir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid y tu hwnt i'r cynllun neu'r trefniant y cytunwyd arno neu a ysgwyddir y tu allan i'r cynllun neu'r trefniant y cytunwyd arno, yn rhan o'r ymgyrch ar y cyd ond bydd yn dal i gyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgyrchydd nad yw'n blaid penodol sy'n ysgwyddo gwariant.

7.14 Dim ond gwariant y cytunwyd arno sy'n rhan o'r ymgyrch ar y cyd sy'n cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r cynllun ar y cyd.

## Enghreifftiau o ymgyrchu ar y cyd

- Mae ymgyrchydd A ac ymgyrchydd B yn cytuno i gynnal ymgyrch i annog pleidleiswyr i bleidleisio dros ymgeiswyr sy'n cefnogi mater penodol. Mae ymgyrchydd A ac ymgyrchydd B yn bwriadu ysgwyddo gwariant a reolir fel rhan o'r ymgyrch. Mae ymgyrchydd A ac ymgyrchydd B ill dau yn ysgwyddo gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd. Ymgyrchu ar y cyd yw hyn, a dylid trin y gwariant felly.

- Mae ymgyrchydd A ac ymgyrchydd B yn cytuno i gynnal ymgyrch i annog pleidleiswyr i bleidleisio dros blaid wleidyddol benodol. Mae'r ddau'n bwriadu ysgwyddo gwariant a reolir fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd. Mae ymgyrchydd A yn ysgwyddo gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd, ond nid yw ymgyrchydd B byth yn gwario ei gyfran arfaethedig. Ymgyrchu ar y cyd yw hyn, a dylai'r gwariant gael ei drin felly gan ymgyrchydd A ac ymgyrchydd B.

- Mae ymgyrchydd A ac ymgyrchydd B yn cytuno i gynnal ymgyrch i annog pleidleiswyr i bleidleisio dros blaid wleidyddol benodol. Mae'r ddau'n bwriadu ysgwyddo gwariant a reolir fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd. Nid yw'r naill ymgyrchydd na'r llall yn ysgwyddo unrhyw wariant a reolir ar yr ymgyrch ar y cyd. Nid oes ymgyrchu ar y cyd wedi digwydd.

## Gweithgarwch sy'n ymgyrchu ar y cyd

7.15 Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n cymryd rhan yn y rhestr a ganlyn o weithgarwch (nad yw'n hollgynhwysfawr) yn debygol o fod yn ymgyrchwyr ar y cyd:

- Ymgyrch hysbysebu ar y cyd, boed yn ddigidol, yn electronig neu drwy ddulliau eraill, gan gynnwys taflenni ar y cyd neu ddigwyddiadau ar y cyd.

- Ymgyrch gydgysylltiedig; er enghraifft pan gytunir pa feysydd sydd i'w cwmpasu, pa faterion sydd i'w codi neu ba bleidleiswyr sydd i'w targedu.

- Gweithio ar y cyd lle gall un blaid wrthod neu raid cymeradwyo deunydd plaid arall.

## Gweithgarwch nad yw'n ymgyrchu ar y cyd

7.16 Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n cymryd rhan yn y rhestr a ganlyn o weithgarwch (nad yw'n hollgynhwysfawr) yn annhebygol o fod yn ymgyrchwyr ar y cyd:

- Cymeradwyo ymgyrch arall drwy ganiatáu i'ch logo/brand gael ei ddefnyddio heb ddim ymrwymiad ariannol na chyfranogiad pellach.

- Ychwanegu'ch llofnod at lythyr ochr yn ochr ag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau heb ddim ymrwymiad ariannol.

- Siarad yn rhydd mewn digwyddiad a drefnwyd gan ymgyrchydd arall nad yw'n blaid heb ddim ymrwymiad ariannol.

- Cynnal trafodaethau am feysydd o ddiddordeb cyffredin heb gydgysylltu gweithgarwch ymgyrchu.

- Nid yw rhoi rhodd i ymgyrchydd arall nad yw'n blaid yn ymgyrchu ar y cyd. Gweler yr adrannau ar wariant tybiannol a rhoddion.

## Adrodd gwariant ar ymgyrch ar y cyd

7.17 Pan fydd ymgyrch ar y cyd, mae'r holl wariant ar yr ymgyrch honno ar y cyd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant pob un o'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd.

7.18 Rhaid i bob ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd sy'n cyrraedd y trothwy adrodd, adrodd ar yr holl wariant ar yr ymgyrch ar y cyd, gan gynnwys gwariant yr ymgyrchwyr eraill ar y cyd, **oni bai** bod un o'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cytuno i fod yn ymgyrchydd arweiniol. Gweler yr adran ar ofynion hysbysu ac adrodd.

## Ymgyrchwyr arweiniol a mân ymgyrchwyr

7.19 Pan fydd ymgyrch ar y cyd, gall un o'r ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau gytuno i adrodd ar yr **holl wariant ymgyrchu ar y cyd** gan bob un o'r ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd.

7.20 Bydd ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid sy'n cytuno i adrodd am yr holl wariant ymgyrchu ar y cyd yn cael ei alw'n **ymgyrchydd arweiniol.**[45] Bydd ymgyrchydd nad yw'n blaid y mae ymgyrchydd arweiniol yn adrodd ar ei wariant ymgyrchu ar y cyd yn cael ei alw'n **fân ymgyrchydd.**[46]

7.21 Pan fydd grŵp o ymgyrchwyr ar y cyd yn gwario mwy na'r trothwy hysbysu ond nad yw rhai o'r ymgyrchwyr hynny'n cyrraedd y trothwy hysbysu, mae'r cyfreithiau sy'n ymwneud ag ymgyrchydd arweiniol/mân ymgyrchydd yn caniatáu i un ymgyrchydd, y ymgyrchydd arweiniol, gyflwyno hysbysiad i'r Comisiwn ac adrodd ar yr holl wariant ar yr ymgyrch ar y cyd. Nid oes rhaid i'r mân ymgyrchwyr gyflwyno hysbysiad.

### Hysbysiad o statws ymgyrchydd arweiniol

7.22 Os bydd ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd yn cytuno i adrodd ar yr holl wariant ymgyrchu ar y cyd, rhaid iddo:

- Hysbysu'r Comisiwn ei fod yn ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd, ac mai ef fydd yr ymgyrchydd arweiniol, a
- Hysbysu'r Comisiwn am y mân ymgyrchwyr sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd.

7.23 Gall ymgyrchydd nad yw'n blaid hysbysu'r Comisiwn o'i statws fel ymgyrchydd arweiniol, neu ymwneud mân ymgyrchwyr, ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod a reoleiddir.[47]

### Adrodd gan yr ymgyrchydd arweiniol

7.24 Bydd yr holl wariant ar yr ymgyrch ar y cyd, boed gan yr ymgyrchydd arweiniol neu'r mân ymgyrchydd/mân ymgyrchwyr, yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgyrchydd arweiniol yn ystod y cyfnod a reoleiddir.[48]

7.25 Rhaid i'r ymgyrchydd arweiniol adrodd ar ei wariant ei hunan a gwariant y mân ymgyrchwyr ar yr ymgyrch ar y cyd yn y ffurflen wariant ar ôl yr etholiad, ochr yn ochr

[45] adran 94A(3)(a) PPERA
[46] adran 94A(3)(b) PPERA
[47] adran 94A(1) PPERA
[48] adran 94B(2) PPERA

ag unrhyw wariant ymgyrchu arall a ysgwyddir gan yr ymgyrchydd arweiniol ar wahân i'r ymgyrch ar y cyd.

**Hysbysu ac adrodd gan y mân ymgyrchydd**

7.26 Pan fydd yr ymgyrchydd arweiniol yn hysbysu'r Comisiwn o'i statws fel ymgyrchydd arweiniol, rhaid iddo hysbysu'r Comisiwn am y mân ymgyrchwyr sy'n ymwneud â'r ymgyrch ar y cyd.

7.27 At ddiben penderfynu a yw mân ymgyrchydd yn bodloni'r trothwy hysbysu neu adrodd, ni chaiff gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd ei gynnwys wrth bennu'r terfynau:

- Os yw'r gwariant yn rhan o ymgyrch ar y cyd sydd wedi'i hysbysu i'r Comisiwn (ac os felly bydd gwariant y mân ymgyrchwyr ar yr ymgyrch ar y cyd yn cael ei drin fel gwariant a ysgwyddir gan yr ymgyrchydd arweiniol a bydd yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgyrchydd arweiniol), **ac**
- Os yw'r ymgyrchydd nad yw'n blaid yn fân ymgyrchydd ar adeg ysgwyddo gwariant, **ac**
- Os yw cyfanswm gwariant yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, heb gynnwys unrhyw wariant ar yr ymgyrch ar y cyd, yn llai na'r trothwyon adrodd[49].

Gweler yr adran ar drothwyon hysbysu ac adrodd.

# Beth yw'r rheolaethau ar roddion?

8.1 Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid gydymffurfio â'r rheolaethau ar roddion yn Atodlen 11 i PPERA sy'n nodi pwy all roi i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

8.2 Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sydd ddim yn bodloni'r trothwy adrodd wirio a yw'r rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir, ond nid ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion adrodd am roddion. Gweler yr adran ar ofynion adrodd.

## Rhoddion a gwmpesir gan y gyfraith

8.3 Dim ond i roddion a roddir i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau, a hynny'n benodol tuag at eu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, y mae'r gyfraith ar roddion yn berthnasol. Nid yw'r gyfraith yn berthnasol i arian a geir at ddibenion cyffredinol y sefydliad.

8.4 At ddibenion rhoddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, rhodd yw:

- arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau[50]
- a roddir at ddiben gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir [51] ac

[49] adran 94B PPERA
[50] Atodlen 11 paragraff 2 PPERA
[51] Atodlen 11 paragraff 1(4) PPERA

- yn ddi-dâl neu ar delerau anfasnachol gyda gwerth o fwy na £500.[52]

8.5 Nid yw dim byd sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd at ddibenion PPERA.

## Pwy all roi i ymgyrchydd nad yw'n blaid

8.6 Dim ond gan unigolion neu sefydliadau y'u rhestrir ar ffynonellau a ganiateir fel y nodir yn adran 54(2) o PPERA y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion.[53]

8.7 Ni chaiff ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion gan blaid wleidyddol.[54]

## Rhoi gwerth ar roddion anariannol

8.8 Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau roi gwerth ar unrhyw rodd anariannol. Gwerth rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn a geir, a'r swm, os o gwbl, y mae'r ymgyrchydd nad yw'n blaid yn ei dalu amdano.[55]

8.9 Mae eitemau a geir am ddim neu ar ostyngiad anfasnachol, pan fo'r gwahaniaeth rhwng y gwerth masnachol a'r hyn a dalwyd amdano yn fwy na £500, yn rhodd at ddibenion PPERA.

## Gwiriadau ar roddion

8.10 Pan fydd ymgyrchydd nad yw'n blaid yn cael rhodd sy'n werth mwy na £500, rhaid iddo wirio'n brydlon a yw'r rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

8.11 Pan ddaw rhodd drwy asiant, rhaid i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid allu nodi pwy yw'r gwir roddwr.[56] Rhaid i'r asiant ddarparu manylion y gwir roddwr.[57]

8.12 Rhaid dychwelyd rhoddion gan roddwyr nas caniateir neu roddwyr anhysbys o fewn 30 diwrnod i gael y rhodd.[58] Rhaid i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gadw cofnodion o'r rhoddion maent yn eu cael, yn ogystal â rhoddion a ddychwelwyd. Rhaid cynnwys y manylion hyn pan adroddir am y rhodd i'r Comisiwn.

[52] Atodlen 11 paragraff 4(2) PPERA
[53] Atodlen 11 paragraff 6(1) PPERA
[54] Atodlen 11 paragraff 1(6) PPERA
[55] Atodlen 11 paragraff 5 PPERA
[56] Atodlen 11 paragraff 6(4) a (6) PPERA
[57] Atodlen 11 paragraff 6(4), (6) a (7) PPERA
[58] Atodlen 11 paragraff 7 PPERA

# Atodiad

Mae'r Atodiad hwn yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r mathau o dreuliau sydd, neu nad ydynt, yn dod o fewn ystyr '*qualifying expenses*' yn Atodlen 8A i PPERA (y gellir ei ystyried yn '*controlled expenditure*' o fewn ystyr adran 85(2)).

Daw treuliau o fewn ystyr treuliau cymwys os ydynt yn dreuliau a ysgwyddir mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a nodir ym mharagraff 1 o Atodlen 8A.

### Atodlen 8A, paragraff 1(1)

*The production or publication of material which is made available to the public at large or any section of the public (in whatever form and by whatever means).*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, offer, cyfleusterau neu fangreoedd a ddarperir gan eraill**

Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

sy'n cael ei ddefnyddio:

- i baratoi, llunio neu gyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol neu unrhyw ran o'r cyhoedd

Er enghraifft, llogi ffotograffydd a mangreoedd i greu delweddau i'w defnyddio mewn deunydd hysbysebu.

**Costau penodol mewn cysylltiad â llunio neu ddosbarthu deunydd hysbysebu digidol neu electronig**

Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw feddalwedd, o unrhyw fath, i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais:

- i ddylunio a llunio deunydd hysbysebu yn fewnol
- i ledaenu neu hwyluso'r gwaith o ledaenu deunydd hysbysebu

boed y deunydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy ddulliau eraill.

Er enghraifft, ffi drwyddedu ar gyfer rhaglen feddalwedd i'w defnyddio ar ddyfais.

Mae hefyd yn cynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i ymdrech i gynyddu amlygrwydd cynnwys mewn unrhyw fodd.

Er enghraifft, prynu safle mwy amlwg ar dudalen peiriant chwilio.

Mae'n cynnwys cost paratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio deunydd hysbysebu ar gyfer:

- ei lawrlwytho a'i ddefnyddio gan eraill
- postio a hyrwyddo deunydd drwy unrhyw fath o sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol

Er enghraifft, costau llunio deunydd hysbysebu sy'n hyrwyddo'r ymgyrch sy'n cael ei bostio ar dudalen ar sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol yn annog dilynwyr i'w rannu.

Mae'n cynnwys cost defnyddio, prynu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall:

- sy'n hwyluso'r gwaith o ddosbarthu neu ledaenu deunydd mewn unrhyw fodd
- sy'n hyrwyddo neu'n gwneud deunydd yn fwy amlwg mewn unrhyw fodd

Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol y'u defnyddir i wneud i ddeunydd ymddangos fel pe bai wedi'i weld a'i gymeradwyo gan nifer uchel o ddefnyddwyr ar sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol.

Mae'n cynnwys costau:

- lletya, cynnal, dylunio neu adeiladu gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hyrwyddo canlyniad yr etholiad
- unrhyw ffi drwyddedu neu hawliau eraill ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth lunio deunydd perthnasol

## Costau eraill

Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer a ddefnyddir ar gyfer:

- paratoi, llunio neu hwyluso'r gwaith o lunio'r deunydd
- lledaenu'r deunydd drwy ddosbarthu neu fel arall

Mae'n cynnwys cost:

- papur neu unrhyw gyfrwng arall y caiff deunydd ei argraffu neu ei arddangos arno
- arddangos deunydd yn gorfforol mewn unrhyw leoliad, er enghraifft ceblau clymu neu lud i godi posteri

Mae'n cynnwys cost argraffu deunydd neu brynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

Mae'n cynnwys cost defnyddio, cael, prynu, datblygu neu gynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data cysylltiadau

- unrhyw wybodaeth, ym mha bynnag fodd, a ddefnyddir i hwyluso'r gwaith o anfon deunydd at bleidleiswyr (er enghraifft, prynu cyfeiriadau e-bost)

Mae'n cynnwys cost defnyddio, cael, prynu, datblygu neu gynnal setiau data, gan gynnwys dadansoddeg data i dargedu pleidleiswyr drwy ba bynnag fodd, gan gynnwys cost asiantaethau, sefydliadau neu eraill sy'n adnabod grwpiau o bleidleiswyr, ym mha bynnag fodd.

Er enghraifft, cost unrhyw asiantaeth a delir i ddadansoddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol i hwyluso'r gwaith o dargedu pleidleiswyr ar draws ardaloedd etholiadol a chost modelu gan unrhyw asiantaeth yn seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw.

Mae'n cynnwys unrhyw wasanaethau i adnabod pleidleiswyr sy'n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Pan geir gwybodaeth neu fynediad at wybodaeth o ffynhonnell allanol, mae'n cynnwys cost fasnachol cael y wybodaeth honno o'r ffynhonnell allanol.

Mae'n cynnwys dosbarthu deunydd drwy unrhyw ddull gan gynnwys dulliau electronig, er enghraifft prynu system ar gyfer anfon e-byst neu ffi drwyddedu ar gyfer rhaglen feddalwedd i'w defnyddio ar ddyfais, yn ogystal â dosbarthu ffisegol, er enghraifft cost amlenni a stampiau.

Mae'n cynnwys goruchwylio a chynnal a chadw'r holl gyfryngau cymdeithasol, digidol neu fathau eraill o ddosbarthu deunydd gan gynnwys cynnal yr holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol p'un a ydynt yn cael eu cynnal gan endid/unigolyn arall ai peidio.

## Atodlen 8A, paragraff 1(2)

*Canvassing, or market research seeking views or information from, members of the public.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau, neu offer a ddarperir gan eraill**

Mae'n cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir i:

- baratoi, llunio, hwyluso, cynnal neu gydlynu gwaith canfasio neu ymchwil marchnad gan gynnwys cofnodi neu ddadansoddi neu ddefnyddio canlyniadau unrhyw ymchwil marchnad neu weithgarwch canfasio mewn unrhyw ffordd arall

Er enghraifft, cost defnyddio banciau ffôn i gysylltu â phleidleiswyr, gan gynnwys datblygu sgriptiau i'w defnyddio gan weithwyr y banc ffôn sydd wedi'u dylunio i ddylanwadu ar bleidleiswyr.

**Costau cael neu gynnal data**

Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, prynu, datblygu a chynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data cysylltiadau
- setiau data, gan gynnwys defnyddio dadansoddeg data i hwyluso neu i ymgymryd â gwaith ymchwil marchnad neu ganfasio

Er enghraifft, mae'n cynnwys y gost o gynnal gwaith gwrando ar y cyfryngau cymdeithasol a dadansoddi'r canlyniadau er mwyn dadansoddi bwriad pleidleiswyr.

**Costau eraill**

Mae'n cynnwys y gost ar gyfer prynu unrhyw offer a defnyddio unrhyw offer sydd ei angen:

- i baratoi, llunio neu hwyluso gwaith canfasio neu ymchwil marchnad
- i gynnal neu gydlynu gwaith canfasio neu ymchwil marchnad
- i gofnodi neu ddadansoddi neu ddefnyddio fel arall ganlyniadau unrhyw ymchwil marchnad neu weithgarwch canfasio

Er enghraifft, gliniaduron neu lechi os cânt eu defnyddio ar gyfer canfasio a ffonau symudol os cânt eu defnyddio gan arweinydd/cydlynydd y gwaith canfasio os bydd yr offer hwnnw a/neu gostau cysylltiedig yn cael eu talu neu eu had-dalu gan drydydd parti cofrestredig.

## Atodlen 8A, paragraff 1(3)

*Press conferences, or other media events, organised by or on behalf of the third party.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Cost cynadleddau i'r wasg neu ymwneud arall â'r cyfryngau**

Mae hyn yn cynnwys cost prynu, defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- offer
- mangreoedd neu gyfleusterau

a ddefnyddir i baratoi, llunio, hwyluso neu gynnal cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau.

**Costau eraill**

Mae'n cynnwys costau unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth baratoi, llunio, hwyluso neu gynnal cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau.

Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â pharatoi, llunio, hwyluso neu gynnal cynadleddau i'r wasg neu ddigwyddiadau eraill i'r cyfryngau.

### Atodlen 8A, paragraff 1(4)

*Transport (by any means) of persons to any place or places with a view to obtaining publicity.*

*Expenses in respect of the transport of such persons include the costs of hiring a particular means of transport.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Cludo gwirfoddolwyr neu ymgyrchwyr**
Mae'n cynnwys cost cludo:

- gwirfoddolwyr
- aelodau, gan gynnwys aelodau o staff
- pobl eraill sy'n ymgyrchu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid

o amgylch ardal etholiadol, neu i ardal etholiadol ac oddi yno, gan gynnwys cost:

- tocynnau ar gyfer unrhyw gludiant
- llogi unrhyw gludiant
- tanwydd a brynwyd neu gostau gwefru cerbydau trydan ar gyfer unrhyw gludiant
- parcio ar gyfer unrhyw gludiant

pan fyddant yn ymgyrchu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid.

**Costau eraill**

Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy'n arddangos deunydd sy'n hyrwyddo canlyniad yr etholiad, gan gynnwys:

- dylunio a gosod y dyluniad ar y cerbyd neu'r math o gludiant
- teithio rhwng ardaloedd etholiadol
- teithio o amgylch ardal etholiadol
- ffioedd parcio pan ddefnyddir cerbyd i arddangos deunydd

Mae costau adroddadwy yn cynnwys yr holl gostau cludiant sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch arall a restrir. Er enghraifft, cludo rhywun i rali.

## Atodlen 8A, paragraff 1(5)

*Public rallies or other public events, other than—*
*(a) annual conferences of the third party, or*
*(b) any public procession or protest meeting, within the meaning of the Public Processions (Northern Ireland) Act 1998 , in respect of which notice is given in accordance with section 6 or 7 of that Act (advance notice of public processions or related protest meetings).*

*Expenses in respect of such events include costs incurred in connection with the attendance of persons at such events, the hire of premises for the purposes of such events or the provision of goods, services or facilities at them. But expenses in respect of such events do not include costs incurred in providing for the protection of persons or property.*

# Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, mangreoedd, cyfleusterau neu offer a ddarperir gan eraill**
Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio, neu logi, unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- mangreoedd neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir:

- i hyrwyddo rali neu ddigwyddiad arall
- i drefnu neu gynnal rali neu ddigwyddiad arall
- i ddarlledu neu ffrydio rali neu ddigwyddiad arall yn fyw mewn unrhyw fodd

**Costau eraill**

Mae'n cynnwys cost hyrwyddo neu hysbysebu'r rali neu'r digwyddiad mewn unrhyw fodd.

Mae'n cynnwys darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddi.

Mae'n cynnwys prynu unrhyw offer mewn cysylltiad â:

- trefnu neu gynnal cyfarfod cyhoeddus
- ffrydio neu ddarlledu cyfarfod cyhoeddus yn fyw mewn unrhyw fodd

**Costau sydd wedi'u heithrio**

Nid yw costau adroddadwy yn cynnwys cost darparu diogelwch penodol ar gyfer unrhyw un sy'n ymddangos neu'n mynychu'r digwyddiad na chostau darparu diogelwch cyffredinol i bobl neu eiddo yn y digwyddiad.